

PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1D

SEFYLLFA A GOHIRIO

Cyflwyniad

1. Gellir gohirio gwrandawriad apêl naill ai drwy ohirio cyn y gwrandawriad neu ohirio yn y gwrandawriad.

Deddfwriaeth

- Rheoliad 27(4) a 30(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 34(4) a 37(7) o Reoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010 (OS 2010/713)
- Rheoliad 22(4) a 25(9) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)

Gohirio cyn y gwrandawriad

2. Mae gohirio gwrandawriad apêl cyn y gwrandawriad yn weithred weinyddol.
3. Gall Tribiwnlys Prasio Cymru (TPC) ohirio gwrandawriad apêl oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Pe bai hyn yn angenrheidiol, hysbysir partïon cyn gynted ag sy'n ymarferol.
4. Gellir gwneud cais i ohirio apêl, yn ysgrifenedig, i TPC, ar ôl i barti sicrhau cefnogaeth gan bob parti arall.
5. Bydd TPC yn ystyried y materion canlynol pan dderbynnir cais i ohirio cyn y gwrandawriad;
 - Y prif reswm dros y cais e.e. anghytuno â ffeithiau, penderfyniad llysoedd uwch heb ei ddatrys ac yn y blaen;
 - a wnaed cynnydd digonol gan y parti/partïon dan sylw;
 - a fydd unrhyw barti dan anfantais oherwydd gohirio;
 - a yw'r apêl wedi'i gohirio o'r blaen;
 - faint o rybudd o ddyddiad y gwrandawriad a roddwyd;
 - prydlondeb y cais;
 - cefnogaeth y parti arall i'r cais neu ei wrthwynebiad rhesymegol.
6. Yn gyffredinol, rhoddir gohiriadau pan fydd TPC o'r farn bod y cais yn rhesymol.

7. Os bernir bod y cais yn afresymol a bod y gohiriad yn cael ei wrthod, hysbysir y partïon yn ysgrifenedig a gallant wneud cais am ohiriad yn y gwrandawriad a drefnwyd.

Gohirio yn y gwrandawriad

8. Penderfyniad barnwrol y Tribiwnlys yw gweithred Gohiriad yn y gwrandawriad.
9. Gall y Tribiwnlys ohirio apêl am y rhesymau a ganlyn;
 - Mae'r rhesymeg dros ohirio a wrthodwyd cyn y gwrandawriad yn cael ei egluro a'i ystyried yn gyfiawnadwy neu teimlir bod gwrthwynebiadau'r partïon yn afresymol. [Ni ddylai partïon dybio y bydd Tribiwnlys yn caniatáu gohiriad yn awtomatig ac y dylent fod yn barod i symud ymlaen pe gofynnir iddynt wneud hynny].
 - cyfnewid tystiolaeth yn annigonol rhwng partïon;
 - daw'n amlwg na chytunwyd ar ffeithiau;
 - dim digon o amser i gwblhau gwrandawriad yr apêl;
 - bernir bod angen arolygiad.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

10. Bydd y Tribiwnlys yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.